Senedd Cymru
**Pwyllgor y Llywydd**
—
Welsh Parliament
**The Llywydd's Committee**

Mick Antoniw AS
Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad
Llywodraeth Cymru
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru

7 Chwefror 2023

**Cais am Gyllideb Atodol - y Comisiwn Etholiadol**

Annwyl Gwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad

Rwy'n ysgrifennu atoch yn rhinwedd eich swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am etholiadau'r Senedd.

Fel y gwyddoch, mae Pwyllgor y Llywydd yn gyfrifol am archwilio amcangyfrifon a chynlluniau'r Comisiwn Etholiadol. Er mwyn helpu i lywio penderfyniad y Pwyllgor, mae'n ofynnol inni ymgynghori â Gweinidogion Cymru ar yr amcangyfrifon a'r cynlluniau hyn a rhoi sylw i unrhyw gyngor y mae Gweinidogion Cymru yn ei roi.

Cafodd y Pwyllgor wybod gan y Comisiwn Etholiadol y byddai'n rhaid iddo gyflwyno Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 ar 20 Hydref 2022. Mae'r Amcangyfrif Atodol yn gofyn am £122,000 yn ychwanegol (sy'n cyfateb i gynnydd o 8.6 y cant ar ei Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23) i ymateb i bwysau sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog, costau ymgyrchu a'r cynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio cynnar. Ceir manylion llawn y cais yn y llythyr atodedig.

Cyfarfu'r Pwyllgor ddydd Llun 7 Tachwedd i drafod yr amcangyfrif ar gyfer 2023/24, a chafodd gyfle i drafod y cais atodol hwn ar yr un pryd. Cytunodd y Pwyllgor â'r cais mewn egwyddor, er ei bod yn ofynnol inni, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ymgynghori â Gweinidogion Cymru unwaith y bydd amrywiad wedi'i gynnwys yn y gyllideb atodol. Byddem felly yn gwerthfawrogi pe gallai unrhyw gyngor rydych yn dymuno ei roi ddod i law erbyn **dydd Gwener 24 Chwefror**.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae'n ofynnol i'r Pwyllgor osod ei adroddiad ar gynnig y gyllideb atodol o fewn tair wythnos i'r gyllideb atodol gael ei gosod.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Rebecca Evans AS ar y mater hwn yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gyllid ac etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.

Yn gywir

**David Rees**

**Cadeirydd Pwyllgor y Llywydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.